

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20:

Canllawiau ar gyfer yr holiadur

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r rhesymau dros ofyn y cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol 2019-20, ac yn rhoi rhywfaint o nodiadau i'r cyfwelwyr ynglŷn â sut i ofyn cwestiynau penodol.

Mae'r cwestiynau wedi'u rhestru yn ôl enw'r newidyn (e.e. EconStat) yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr holiadur, ac maent wedi'u grwpio yn ôl pwnc.

Gwirio cyfeiriad.....	5
Dechrau'r cyfweliad (Gweinyddol).....	5
Dechrau'r cyfweliad (Gweinyddol).....	5
Dechrau'r cyfweliad (Rhyw, Oed).....	5
Dechrau'r cyfweliad (Neuaddau preswyl).....	6
Dechrau'r cyfweliad (Addysg amser llawn).....	6
Dechrau'r cyfweliad (Statws priodasol).....	6
Dechrau'r cyfweliad (Perchnogaeth eiddo).....	6
Dechrau'r cyfweliad (Ymatebydd a ddewisir).....	7
Dechrau'r cyfweliad (Caniatâd rhiant/gwarcheidwad ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed).....	7
Dechrau'r cyfweliad (Grid perthynas rhwng pawb yn y cartref).....	7
Dechrau'r cyfweliad (Statws gwarcheidwad cyfreithiol).....	7
Craidd – Hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd.....	7
Craidd – Statws economaidd a chymwysterau.....	8
Craidd – Deiliadaeth.....	8

Craidd – Y Gymraeg.....	10
Y Gymraeg – defnydd mewn gwasanaethau a chyfleusterau lleol	10
Y Gymraeg – defnydd gydag awdurdodau lleol.....	11
Craidd – Llesiant (ONS4)	11
Defnyddio'r rhyngrwyd.....	12
Sgiliau rhyngrwyd	13
Gwasanaethau sector cyhoeddus ar-lein	13
Awdurdodau Lleol	13
Ysgolion uwchradd.....	15
Gofal plant.....	16
Craidd – Cwestiynau demograffeg iechyd.....	16
BMI.....	16
Craidd – Salwch hirdymor	17
Gwasanaethau meddyg teulu.....	19
Ysbytai	20
Gwasanaethau gofal sylfaenol ac eithrio meddygon teulu	20
Gwybodaeth, cyngor a chymorth iechyd	20
Gwybodaeth ar-lein am iechyd a gofal	21
Meddyginiaeth a sgil-effeithiau.....	21
Arthritis a chyflyrau'r esgyrn	22
Iechyd deintyddol	22
Deiet.....	22

Alcohol	23
Ysmygu	25
Gweithgarwch corfforol.....	25
Teithio llesol	25
Llywodraeth Cymru	26
Datganoli trethi	26
Craidd – Amddifadedd materol cartrefi (nid pensiynwyr).....	27
Craidd – Amddifadedd materol cartrefi (pensiynwyr).....	28
Craidd – Amddifadedd materol plant.....	29
Credyd cynhwysol	30
Gwirfoddoli	30
Gofalwyr (gwirfoddoli).....	31
Cyd-destun cyflogaeth.....	31
Gwaith teg	31
Gwahaniaethu ar sail oedran	32
Cynllunio ar gyfer y dyfodol	32
Datblygu sgiliau yn ymwneud â'r gwaith.....	33
Cyflogadwyedd a chymorth	33
Trafnidiaeth	33
Presenoldeb yn y celfyddydau	34
Cyfranogi yn y celfyddydau	34
Treftadaeth.....	34

Amgueddfeydd	35
Llyfrgelloedd	35
Archifau	35
Chwaraeon Cymru – Cyfranogiad presennol a galw cudd	36
Chwaraeon Cymru – Aelodaeth o glybiau chwaraeon.....	36
Chwaraeon Cymru – Annog cyfranogiad yn y dyfodol.....	37
Chwaraeon Cymru – Profiadau yn yr ysgol	37
Chwaraeon Cymru – Mwynhau chwaraeon.....	37
Chwaraeon Cymru – Gwirfoddoli	38
Derbyn CASI	38
Modiwl hyfforddi CASI	39
CASI – Unigrwydd	39
CASI – Cosbi plant yn gorfforol	39
CASI – Cwestiynau incwm wedi’u bandio	39
CASI – Camwahanïaethu a bwlio	40
CASI – Beichiog	40
Craidd CASI – Cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd	40
Craidd – ail gysylltu	41
Craidd – Cyfwelydd i wirio’r wybodaeth.....	41

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
AddrChk Addr1-4 PostCode	Gwirio cyfeiriad	Cadarnhau bod manylion y cyfeiriad sydd gennym yn gywir.	
LangInt		Cael gwybod ym mha iaith mae'r ymatebydd am i'r cyfweliad gael ei gynnal.	
C4	Dechrau'r cyfweliad (Gweinyddol)	Cael gwybod faint o bobl sy'n byw yn y cartref er mwyn ein helpu i ddeall eu cyfansoddiad. Caiff ei ddefnyddio hefyd i gyfeirio at gwestiynau eraill yn nes ymlaen yn yr arolwg ¹ .	
QBNames1-8	Dechrau'r cyfweliad (Gweinyddol)	Cofnodi enw pob aelod o'r cartref er mwyn gallu 'llenwi testun' ² mewn cwestiynau diweddarach (h.y. er mwyn gallu cyfeirio at aelodau'r cartref wrth eu henwau).	
Gender DteofBth Agelf	Dechrau'r cyfweliad (Rhyw, Oed)	Casglu gwybodaeth am ryw pob aelod o'r cartref ac am eu dyddiad geni/oed ar eu pen-blwydd diwethaf. Mae hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall cyfansoddiad cartrefi ac yn ei galluogi i ddadansoddi canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl (e.e. oes gan bobl mewn bandiau oed gwahanol safbwyntiau gwahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Caiff y cwestiynau eu defnyddio i gyfeirio at gwestiynau'n nes ymlaen yn yr holiadur hefyd,	

¹ Mae cyfeirio'n ffordd o deilwra'r holiadur i bob ymatebydd, ac o leihau nifer y cwestiynau a ofynnir i bob ymatebydd er mwyn lleihau'r baich.

² Mae llenwi testun yn ei gwneud yn bosibl addasu cwestiynau'n awtomatig i adlewyrchu atebion yr ymatebydd, er enghraifft, fel bod y cwestiwn yn gallu cynnwys ei enw neu "ef" / "hi" fel y bo'n briodol.

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		ac i 'lenwi testun' (e.e. er mwyn gallu cyfeirio at aelodau'r cartref fel "ef" neu "hi" yn gywir). Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion na chartrefi mewn unrhyw ffordd.	
HallRes	Dechrau'r cyfweliad (Neuaddau preswyl)	Cadarnhau a yw pob aelod o'r cartref yn byw mewn neuaddau preswyl neu ysgol breswyl. Mae hyn yn sefydlu pa aelodau o'r cartref sy'n byw yn y cyfeiriad yn barhaol, i helpu i weld pwy sy'n gymwys i gael ei ddewis yn ymatebydd.	
HH4_6FtEd HH16_19FtEd	Dechrau'r cyfweliad (Addysg amser llawn)	Gweld a yw pob aelod o'r cartref sydd rhwng 4 a 6 oed neu 16 ac 19 oed mewn addysg amser llawn er mwyn cael gwybod a ddylid cyfeirio ymatebwyr at gwestiynau am ysgolion cynradd ac uwchradd yn nes ymlaen yn yr arolwg.	
MarStat MarChk LivWith12	Dechrau'r cyfweliad (Statws priodasol)	Gweld a yw pob aelod o'r cartref sy'n 16 oed neu'n hŷn wedi priodi ag aelod arall o'r cartref neu'n byw gydag aelod arall o'r cartref. Bydd hyn yn helpu i 'lenwi testun' mewn cwestiynau eraill yn nes ymlaen sy'n holi am yr ymatebydd, yr ymatebydd a'i bartner, neu'r cartref i gyd.	
OwnRent HighInc	Dechrau'r cyfweliad (Perchnogaeth eiddo)	Sefydlu pwy yw Person Cyswllt y Cartref drwy gael gwybod pwy yw'r unigolyn/unigolion sy'n berchen ar yr adeilad neu'n ei rentu, neu os yw'r adeilad yn eiddo i fwy nag un person neu'n cael ei rentu gan fwy nag un person, cael	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		gwybod pa aelod o'r cartref sydd â'r incwm mwyaf. Bydd y cwestiwn yn helpu wrth gyfeirio at gwestiynau diweddarach.	
SelPerson	Dechrau'r cyfweliad (Ymatebydd a ddewisir)	Cofnodi pa aelod o'r cartref fydd yn mynd ymlaen i ateb gweddill yr arolwg.	
C5b C5c PGName PGRel PGOT	Dechrau'r cyfweliad (Caniatâd rhiant/gwarcheidwad ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed)	Cael caniatâd rhiant/gwarcheidwad os yw'r ymatebydd a ddewiswyd yn 16 neu'n 17 oed ac yn byw gyda'i riant/gwarcheidwad.	
RelResp	Dechrau'r cyfweliad (Grid perthynas rhwng pawb yn y cartref)	Cael gwybod sut mae pob aelod o'r cartref yn perthyn i'r aelodau eraill. Fe'i defnyddir i gyfeirio at gwestiynau/adranau yn nes ymlaen yn yr arolwg (e.e. cwestiynau am blant dibynnol).	
GrdChk	Dechrau'r cyfweliad (Statws gwarcheidwad cyfreithiol)	Gweld a yw'r ymatebydd yn warcheidwad cyfreithiol i unrhyw blant sydd yn y cartref, lle nad yw'r statws rhiant/gwarcheidwad yn glir wrth edrych ar y grid. Mae hyn yn help wrth gyfeirio at gwestiynau yn nes ymlaen yn yr arolwg sy'n cael eu gofyn i rieni/gwarcheidwaid plant sy'n byw yn y cartref yn unig.	
FullName NatID Ethnicity	Craidd – Hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd	Sefydlu hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd yr ymatebydd. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. oes gan grwpiau gwahanol o bobl safbwyntiau	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		gwahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	
EconStat Hours WkingHH Educat ApprLev CarUse	Craidd – Statws economaidd a chymwysterau	Cael gwybod a yw'r ymatebwyr mewn unrhyw fath o waith neu hyfforddiant, am faint o oriau y maent yn gweithio, ac a oes unrhyw un arall yn y cartref yn gweithio. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. oes gan bobl gyda gwahanol lefelau o gyrhaeddiad addysgol safbwyntiau gwahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	
Tenure	Craidd – Deiliadaeth	Cael gwybod beth yw deiliadaeth gyfreithiol ffurfiol cartref yr ymatebydd (e.e. perchenfeddiannwr, rhentu). Mae hyn wedi'i gynnwys er mwyn gallu dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. oes gan bobl gyda statws deiliadaeth gwahanol safbwyntiau gwahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	Mae cynlluniau anarferol yn cynnwys: Cydberchnogaeth – Lle mae grŵp o bobl sydd wedi ffurfio cymdeithas gyd-berchnogaeth gofrestredig yn berchen ar eiddo preswyl ar y cyd (e.e. blociau o fflatiau). Cychwynnodd y cynlluniau hyn yn y 1970au ond cafodd deddfwriaeth newydd ei phasio yn y 1980au felly ni ddylid gweld dim mwy o'r cynlluniau hyn erbyn heddiw. Cwmnïau Tai Cydweithredol – Yr un cod â rhentu gan Gymdeithas Dai (cod 3).

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
			Ymddiriedolaeth Gweithredu Tai – Wedi'u sefydlu gan awdurdodau lleol, mae'r adeiladau sy'n cael eu rhentu yn dal yn eiddo i awdurdodau lleol. Yr un cod â rhentu gan y cyngor lleol (cod 2). Cynlluniau Rhent i Forgais – Cynlluniau sydd ar gael i denantiaid y cyngor lle mae gan y tenant yr hawl i brynu cyfran o'i gartref am tua'r un faint o dâl misol â'r rhent. Yr un cod â chyd-berchnogion (cod 1); yr 'awdurdod lleol' yw'r landlord. Les Sector Preifat – Mae'r cyngor yn gosod eiddo preifat ar les am lawer o flynyddoedd ac yn ei osod i denantiaid. Yr un cod â rhentu gan y cyngor lleol (cod 2). Cynlluniau Incwm Cartref a Chynlluniau Cartrefi Ymddeol – Lle mae'r perchnogion llwyr yn codi benthyciad ar sicrhad y tŷ am incwm rheolaidd. Gelwir hyn yn ryddhau ecwiti hefyd. Yr un cod â pherchnogion llwyr (cod 1). Cynlluniau ar gyfer y rheini sydd wedi methu talu eu morgais – Yn yr achosion hyn, bydd yr eiddo'n mynd yn ôl i ddwylo'r benthyciwr a rhent yn cael ei dalu yn hytrach na morgais. Cod 4, yr un cod â rhentu gan landlord preifat.

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
			Meddiannaeth – Os yw banc wedi meddiannu tŷ fel sicrwydd ar gyfer busnes, dylid defnyddio cod 1 os oedd y preswlydd yn llwyr berchennog arno neu god 2 os oedd y preswlydd yn ei brynu gyda morgais neu fenthyciad.
WelUndSpk WelSpk WelRead WelWrite WelAbSpk WelFrqSpk	Craidd – Y Gymraeg	Targed Llywodraeth Cymru yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nod yr adran hon yw cael gwybod am allu'r ymatebydd i siarad Cymraeg, pa mor rhugl ydyw, a pha mor aml y mae'n defnyddio'r iaith. Mae'r cwestiynau'n rhoi rhagor o fanylion na'r hyn sydd ar gael o ffynonellau eraill (e.e. y Cyfrifiad). Maent hefyd yn ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl (e.e. oes gan siaradwyr Cymraeg safbwyntiau gwahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	WelAbSpk, WelFrqSpk are only asked of those who stated 'Yes' at WelSpk.
LangPref WhichFac LangSprmrkt LangShop LangPost LangBank LangPubRest LangSportLeis	Y Gymraeg – defnydd mewn gwasanaethau a chyfleusterau lleol	Nod strategaeth Cymraeg 2050 yw hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Pwrpas yr adran hon yw helpu Llywodraeth Cymru a chyrff eraill i ddeall sut mae'r Gymraeg yn cael ei siarad wrth ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau lleol.	Gofynnir yr adran hon dim ond os yw'r ymatebydd wedi dweud ei fod yn siarad Cymraeg neu'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg.

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
LangFacReas			
LAContact LALang LALangReas	Y Gymraeg – defnydd gydag awdurdodau lleol	Mae'n rhaid i rai sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Y nod yw hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio mewn bywyd bob dydd. Bwriad y cwestiynau hyn yw cael gwybodaeth am y Gymraeg gydag awdurdodau lleol.	Gofynnir yr adran hon dim ond os yw'r ymatebydd wedi dweud ei fod yn siarad Cymraeg neu'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg.
WbSatLife WbLifeWrth WbHapYest WbAnxYest JobSat	Craidd – Llesiant (ONS4)	Cael gwybod am wahanol agweddau ar lesiant pobl (e.e. pa mor fodlon ydynt â'u bywyd). Bydd hyn yn helpu i roi gwybod pa gamau sydd angen eu cymryd i wella llesiant. Mae cwestiynau am lesiant wedi'u cynnwys er mwyn gallu dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl hefyd (e.e. oes gan bobl gyda lefelau llesiant uwch safbwyntiau gwahanol am wasanaethau cyhoeddus?).	Mae'n bwysig nodi mai cwestiynau barn yw'r rhain felly mae angen dilyn rheolau penodol. Efallai y byddwch yn gyfarwydd â nhw o arolygon eraill fel yr Arolwg Safbwyntiau a Ffordd o Fyw (OPN) a Ffordd o Fyw Cyffredinol (GLF). Gall yr ymatebydd ateb cwestiynau barn sut bynnag mae'n dymuno; nid ydym yn ceisio'i wthio i roi ymateb penodol. Felly mae'n bwysig iawn nad yw'r cyfwelydd yn ceisio dylanwadu ar yr ymatebydd mewn unrhyw ffordd. Dyma ambell bwynt cyffredinol am ofyn cwestiynau barn: Os yw'r ymatebydd yn ei chael yn anodd ateb cwestiynau ac yn teimlo cywilydd neu'n bryderus am hyn, cofiwch bwysleisio nad oes ateb cywir neu anghywir, a'ch bod yn awyddus i glywed beth mae'n ei wybod neu'n ei feddwl. Gallwch bob amser gydymdeimlo a dweud y byddech

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
			chithau hefyd yn ei chael yn anodd ateb y cwestiynau. Efallai y gofynnir i chi beth yw'r ateb cywir i gwestiwn barn. Mae angen i chi ddelio â'r sefyllfa hon yn ofalus iawn gan ei bod yn bwysig nad ydych yn rhoi ateb yn ystod y cyfweiliad. Efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud nad yw'ch barn chi'n berthnasol ac mai barn yr ymatebydd sy'n bwysig. Os bydd yr ymatebydd yn ymateb i gwestiwn barn drwy ofyn "beth mae hyn yn ei olygu?", ddylech chi byth geisio esbonio. Os nad yw'r ymatebydd yn deall y cwestiwn, dylech ail adrodd y cwestiwn unwaith, yn union fel y mae wedi'i ysgrifennu. Os nad yw'r ymatebydd yn gallu ateb y cwestiwn ar ôl i chi ei ailadrodd unwaith, dylech nodi "ddim yn gwybod" a symud ymlaen. Ddylech chi byth ailadrodd cwestiynau barn fwy nag unwaith, beth bynnag fo'r amgylchiadau. Yn yr un modd, ni ddylai geiriad y cwestiwn gael ei addasu byth.
IntHhHave IntPersUse IntPersUseCheck IntFrqAccE IntHlp	Defnyddio'r rhyngwrwyd	Wrth i fwy o wasanaethau fynd ar-lein, mae pobl sydd ddim yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn colli allan ar lawer o'r cyfleoedd y gall y rhyngwrwyd eu cynnig, gan gynnwys cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sydd ar gael yn rhatach ar-lein; chwilio am swyddi a gwneud cais amdanynt ar-lein; lleihau unigrwydd a helpu pobl i fyw'n annibynnol; a chael gafael ar	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		wasanaethau cyhoeddus mwy hwylus ar-lein. Mae'r adran hon yn casglu gwybodaeth am fynediad y cartref at y rhyngrwyd a faint o ddefnydd mae'r ymatebydd ei hun yn ei wneud o'r rhyngrwyd. Bydd y canfyddiadau'n helpu Llywodraeth Cymru i fynd ati i helpu rhagor o bobl i fynd ar-lein.	
IntInfoSearchDone IntProbInfoDone IntComEmailDone IntTransAccountDone IntSaveSetDone IntComSocialDone IntTransBuyDone IntInfoEntDone IntoProbHelpDone IntSafeUpdateDone	Sgiliau rhyngrwyd	Cael gwybod am lefel sgiliau sylfaenol poblogaeth Cymru wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae'r sgiliau sylfaenol hyn yn cynnwys delio â gwybodaeth a chynnwys, cyfathrebu, cyflawni trafodion, datrys problemau ac aros yn ddiogel ac yn gyfreithiol ar-lein. Bydd y canfyddiadau'n helpu Llywodraeth Cymru i gymryd camau i helpu rhagor o bobl i ddefnyddio'r rhyngrwyd.	Dim ond os yw'r ymatebwyr wedi dweud eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd y gofynnir yr adran hon.
IntGovUse2 IntGovRec IntGovSat IntGovTransYN IntGovTransEase IntGovTransX IntGovTransX2	Gwasanaethau sector cyhoeddus ar-lein	Mae mwy o wasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu ar-lein nag erioed o'r blaen. Nod yr adran hon yw cael gwybod a yw pobl yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein a pha mor fodlon ydynt â'r gwasanaethau hynny.	Dim ond os yw'r ymatebwyr wedi dweud bod ganddynt fynediad at y rhyngrwyd y gofynnir yr adran hon.
UaQualServ UaQualServR UaQualArea LAServ	Awdurdodau Lleol	Mae gwaith ar y gweill i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cwestiynau hyn yn casglu gwybodaeth am argraffiadau ymatebwyr am y gwasanaethau a ddarperir	Mae'n bwysig nodi mai cwestiynau barn yw'r cwestiynau hyn. Edrychwch ar y canllawiau ar gwestiynau barn ar dudalen 11.

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
LaInfoCh LABudget LAPrtOpp		gan eu hawdurdodau lleol, ac a ydynt yn teimlo'u bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth a dylanwadu ar benderfyniadau. Bydd modd cymharu'r canlyniadau ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddant yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill hefyd i ddeall effaith y diwygio.	
PsChildAtt PsWhich PsFeePay PsSchSat PsWellR PsPrepStg PsHigh	Ysgolion cynradd	Casglu gwybodaeth am farn rhieni am ysgol gynradd eu plant. Mae'r ffocws ar ysgolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru (drwy awdurdodau lleol), felly ni fydd y cwestiynau'n cael eu gofyn oni bai fod y plentyn yn mynychu ysgol sy'n cael arian gan y wlad. Gofynnir PsWhich er mwyn cymharu bodlonrwydd rhieni â data eraill am berfformiad ysgolion (e.e. arolygiadau Estyn, canlyniadau arholiadau). Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	Os oes mwy nag un plentyn (rhwng 4 a 12 oed) yn gymwys ar gyfer y cwestiynau hyn, bydd CAPI yn dewis un o'r plant cymwys ar hap. Byddwn yn gofyn am un plentyn yn unig er mwyn cadw'r cyfweiliad mor fyr â phosibl. Cofiwch ddweud yn glir wrth yr ymatebwyr mai dim ond y plentyn a ddewiswyd ar hap y dylent ei ystyried wrth ateb y cwestiwn. Gallai'r cwestiynau hyn gael eu gofyn am blentyn sydd wedi gadael yr ysgol gynradd y llynedd. Os felly, dylai'r ymatebydd feddwl am gyfnod y plentyn hwnnw yn yr ysgol gynradd, ac efallai y bydd angen i chi newid amser y cwestiwn fel y bo'n briodol (e.e. "A yw [Enw] yn hapus yn yr ysgol" → "Oedd [Enw] yn hapus yn yr ysgol").

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
			Ni fydd y cwestiynau'n cael eu gofyn i bobl sy'n talu ffioedd i ysgolion eu plant gan fod y pwyslais ar ysgolion sy'n derbyn arian gan y wlad.
SsChildAtt SsWhich SsFeePay SsSchSat SsWellR SsPrepStg SsHigh	Ysgolion uwchradd	Casglu gwybodaeth am farn rhieni am ysgol uwchradd eu plant. Mae'r ffocws ar ysgolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru (drwy awdurdodau lleol), felly ni fydd y cwestiynau'n cael eu gofyn oni bai fod y plentyn yn mynychu ysgol sy'n cael arian gan y wlad. Gofynnir SsWhich er mwyn cymharu bodlonrwydd rhieni â data eraill am berfformiad ysgolion (e.e. arolygiadau Estyn, canlyniadau arholiadau). Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	Os oes mwy nag un plentyn (rhwng 11 ac 19 oed) yn gymwys ar gyfer y cwestiynau hyn, bydd CAPI yn dewis un o'r plant ar hap. Byddwn yn gofyn am un plentyn yn unig er mwyn cadw'r cyfweiliad mor fyr â phosibl. Os yw'r plentyn yn 11 neu'n 12 oed, mae'n bosibl y gofynnir i'r ymatebydd ystyried yr un plentyn wrth ateb cwestiynau am yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Os nad yw plentyn wedi dechrau yn yr ysgol uwchradd eto, dewiswch 'Na' (Cod 2) yn SsChildAtt. Gallai'r cwestiynau gael eu gofyn am blentyn sydd wedi gadael yr ysgol uwchradd y llynedd hefyd. Os felly, dylai'r ymatebydd feddwl am gyfnod y plentyn hwnnw yn yr ysgol uwchradd, ac efallai y bydd angen i chi newid amser y cwestiwn fel y bo'n briodol (e.e. "A yw [Enw] yn hapus yn yr ysgol" → "Oedd [Enw] yn hapus yn yr ysgol"). Ni fydd y cwestiynau'n cael eu gofyn i bobl sy'n talu ffioedd i ysgolion eu plant gan fod y pwyslais ar ysgolion sy'n derbyn arian gan y wlad.

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
CCEver CCEverNo CCWho CCFR CCOthHrs CCSatHol CCSatHrs CCSathrsDif	Gofal plant	Cael gwybod am y mathau o ofal plant y mae pobl yn eu defnyddio ar gyfer plant rhwng 0 a 4 oed; pa mor hwylus yw dod o hyd i ofal plant; a pham mae rhai pobl yn dewis peidio â defnyddio gofal plant. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau am bolisiau gofal plant, yn enwedig y cynnig gofal plant lle bydd gofal plant sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth ar gyfer plant 3 a 4 oed yn cynyddu o 10 awr yr wythnos i 30 awr yr wythnos.	Os oes mwy nag un plentyn yn gymwys i ateb y cwestiynau hyn, bydd CAPI yn dewis un plentyn ar hap. Byddwn yn gofyn am un plentyn yn unig er mwyn cadw'r cyfweiliad mor fyr â phosibl.
GenHealth	Craidd – Cwestiynau demograffeg iechyd	Casglu gwybodaeth am y modd y mae pobl yn asesu eu hiechyd cyffredinol. Mae'r wybodaeth yn rhoi cyd-destun ar gyfer amrywiol gynlluniau cyflawni ym maes iechyd, a bydd yn cael ei defnyddio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd. Mae'r cwestiwn yn ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. oes gan bobl gyda statws iechyd gwahanol safbwyntiau gwahanol am wasanaethau cyhoeddus?).	
HtImpMet HtMet HtImp WtImpMet WtMet WtImp	BMI	Asesu pwysau corff iach a lefelau gordewdra. Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau i fyw'n iach yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 . Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio'n eang gan sefydliadau eraill hefyd (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		Cymru, llywodraeth leol ac eraill) er mwyn datblygu strategaethau, monitro cynnydd a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.	
Longlll Disab1-6E DisabLimit1-6E DisabAnoth1-5E	Craidd – Salwch hirdymor	Cael gwybod am lefelau anabledd a chyflyrau iechyd hirdymor yn y boblogaeth, a sut maent yn newid. Mae gan lawer o bobl o leiaf un cyflwr iechyd hirdymor, ac mae mwy nag un cyflwr yn gyffredin hefyd. Mae'r cwestiynau'n ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. oes gan bobl gyda salwch neu gyflwr iechyd safbwyntiau gwahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Mae Longlll yn un o gwestiynau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol sydd wedi'i gysoni, felly mae modd cymharu'r canlyniadau'n eang gyda chanlyniadau arolygon eraill y llywodraeth. Yn yr un modd â GenHealth, mae'r wybodaeth yn rhoi cyd-destun ar gyfer amrywiol gynlluniau cyflawni ym maes iechyd, a bydd yn cael ei defnyddio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd. Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	Ar gyfer Longlll, mae'r pwyslais ar gyflyrau hirdymor sy'n debygol o fod angen rhywfaint o oruchwyliaeth a thriniaeth, fel diabetes. Mae'r rhain yn cynnwys: • nam ar y synhwyrâu • problemau symudedd sydd ddim yn rhai dros dro, gan gynnwys dyspraxia a pharlys yr ymennydd • cyflyrau datblygiadol fel awtistiaeth a syndrom Asperger • cyflyrau sy'n gysylltiedig â nam (anabledd) dysgu fel Syndrom Down's • dyslecsia • asthma • diabetes • cyflwr ar y galon a chyflyrau cylchredol eraill • cyflwr anadlu • cyflwr sy'n ymwneud â'r system dreulio • pryder ac iselder ac ati os ydynt wedi para am 12 mis neu ragor neu y disgwylir iddynt bara am 12 mis neu ragor • cyflwr tymhorol fel clwy'r gwair sy'n dychwelyd ac wedi para, neu y disgwylir iddo ddychwelyd eto yn y dyfodol

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
			• cyflwr sy'n codi ei ben bob hyn a hyn, ond mae'r cyfnod gwaethygu'n llai na 12 mis • problemau sydd ddim yn cael eu hystyried yn ddifrifol neu sy'n cael eu rheoli'n dda gan driniaethau ac addasiadau i ffordd o fyw, ac sydd ddim i weld yn effeithio ar weithgareddau o ddydd i ddydd, ond sy'n hirdymor serch hynny. Ni ddylid cynnwys: Cyflyrau dros dro, waeth pa mor ddifrifol ydynt. Gweithgareddau bob dydd yw'r rheini y mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu gwneud o ddydd i ddydd, gan gynnwys: • ymolchi a gwisgo, • glanhau'r cartref, • coginio, • siopa am nwyddau hanfodol, • defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu gludiant preifat; • cerdded pellter penodol, • dringo'r grisiau, • cofio talu'r biliau, • codi pethau oddi ar y llawr neu oddi ar fan gwaith yn y gegin, • tasgau sy'n golygu codi a chario cymedrol, fel garddio, • gafael mewn pethau fel cyllyll a ffyrc,

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
			• clywed a siarad mewn ystafell swnllyd. Byddai'r ateb 'Ydy, yn fawr', er enghraifft, yn briodol i rywun sydd angen rhyw lefel o gymorth fel arfer gan aelodau'r teulu, ffrindiau neu wasanaethau cymdeithasol personol ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau bob dydd. Pwysig Dylai'r ymatebwyr ateb ar sail i ba raddau maent wedi'u cyfyngu rhag gwneud gweithgareddau ar hyn o bryd, gan ystyried unrhyw driniaeth, meddyginiaeth neu ddyfeisiau eraill fel cymorth clyw y maent yn eu cael neu'n eu defnyddio o bosibl. Er enghraifft, os oes angen cymorth clyw ar yr ymatebydd, a bod defnyddio'r ddyfais yn golygu nad yw wedi'i gyfyngu rhag cyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd, dylid defnyddio opsiwn 3, sef 'Na, dim o gwbl'.
GpSeenDr GpNSeenDr GpNSeenDr2 GpAppoint GpAppEase GpAppDif1-8 GpOverSat	Gwasanaethau meddyg teulu	Cael gwybod beth yw barn pobl am y gwasanaethau maent wedi'u derbyn gan eu meddyg teulu, gan gynnwys a ydynt yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad sy'n addas iddyn nhw ac a ydynt yn fodlon â'r gofal. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried safbwyntiau defnyddwyr gofal iechyd wrth fesur perfformiad y GIG yng Nghymru, a	Dim ond gofal y GIG sydd o ddiddordeb i ni, nid gwasanaethau iechyd preifat. Dylid gofyn pob un o'r cwestiynau iechyd i bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau y tu allan i Gymru hefyd. GIG Cymru sy'n gyfrifol am bobl sy'n byw yng Nghymru, hyd yn oed os ydynt yn cael eu trin gan y GIG yn Lloegr neu yn rhywle arall.

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		chaiff y canlyniadau eu defnyddio i fonitro perfformiad yn erbyn Fframwaith Canlyniadau'r GIG Llywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith yn allweddol i ddeall perfformiad GIG Cymru ac i weld ym mha feysydd mae'r perfformiad yn dda a lle mae angen newid.	Mae'n bwysig nodi bod yr adran hon yn cynnwys rhai cwestiynau barn. Edrychwch ar y canllawiau ar gwestiynau barn ar dudalen 11.
HspHadApp HspPatType HspOverSat	Ysbytai	Cael gwybod beth yw barn pobl am y gofal maent wedi'i gael yn ysbytai'r GIG. Defnyddir y canlyniadau i fonitro perfformiad yn erbyn Fframwaith Canlyniadau'r GIG Llywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith yn allweddol i ddeall perfformiad GIG Cymru ac i weld pa feysydd sy'n gwneud yn dda neu lle mae angen newid.	Mae'n bwysig nodi bod yr adran hon yn cynnwys rhai cwestiynau barn. Edrychwch ar y canllawiau ar gwestiynau barn ar dudalen 11.
NonGPServs	Gwasanaethau gofal sylfaenol ac eithrio meddygon teulu	Un o brif nodau cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol Llywodraeth Cymru yw gwneud yn siŵr bod pobl yn cael mynediad prydlon at y gofal priodol gan y person priodol. Mae'r cwestiwn hwn yn holi am yr amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol y mae pobl yn eu defnyddio. Gellir cymharu'r canlyniadau â chanlyniadau blynyddoedd a fu er mwyn cael gwybod a yw defnydd yn newid yn unol â'r buddsoddiad mewn timau gofal sylfaenol aml-broffesiynol.	
Infolll InfoLife	Gwybodaeth, cyngor a chymorth iechyd	Nod Llywodraeth Cymru yw gwella mynediad nid yn unig at wasanaethau meddygon teulu ond at wasanaethau iechyd a llesiant lleol ehangach hefyd er mwyn gwneud yn siŵr bod	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		pobl yn cael y gofal priodol o'r lle priodol. Mae'r adran hon yn ceisio cael gwybod a yw pobl yn meddwl eu bod yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a'r gefnogaeth briodol pan fydd arnynt eu hangen, a hynny pan fydd ganddynt broblem iechyd a phan fyddant yn gwneud dewisiadau am fyw'n iach.	
HlthInt HlthIntSrc HlthIntHow HlthIntTrust	Gwybodaeth ar-lein am iechyd a gofal	Cael gwybod a yw pobl yn mynd ar-lein i gael gwybodaeth am iechyd a gofal – a sut maent yn gwneud hynny – ac a ydynt yn ymddiried yn y ffynonellau maent yn eu defnyddio. Bydd y canlyniadau'n rhoi gwybodaeth am y defnydd mae pobl yn ei wneud o wybodaeth ddigidol am iechyd ar hyn o bryd, er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu llwyfan newydd ar gyfer iechyd a llesiant ar-lein.	Dim ond os yw'r ymatebwyr wedi dweud eu bod yn defnyddio'r rhyngwyd y gofynnir yr adran hon. Mae'n bwysig nodi bod yr adran hon yn cynnwys rhai cwestiynau barn. Edrychwch ar y canllawiau ar gwestiynau barn ar dudalen 11.
MedAny MedSide MedSideHelp	Meddyginiaeth a sgil-effeithiau	Cael gwybod pa weithwyr iechyd proffesiynol y bydd pobl yn troi atynt pan fyddant yn cael sgil-effeithiau ar ôl cymryd meddyginiaeth. Mae fferyllwyr a Galw Iechyd Cymru yn gallu cynghori pobl ar ddelio gyda sgil-effeithiau. Os bydd y canlyniadau'n awgrymu bod gwasanaethau ysbytai neu feddygon teulu yn cael eu defnyddio yn lle hynny, efallai y bydd angen ymgyrch gyhoeddusrwydd i roi gwybod i'r cyhoedd â phwy y dylen nhw gysylltu i ddechrau.	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
ArthBoneType ArthBoneMain ArthBoneTrtmt	Arthritis a chyflyrau'r esgyrn	Arthritis a chyflyrau cyhyrsgerberbydol sydd wrth wraidd llawer iawn o boen, anableddau ac achosion o golli gwaith yng Nghymru. Nod y cwestiynau hyn yw cael gwybod faint o'r achosion o amrywiol fathau o arthritis a chyflyrau'r esgyrn y mae pobl yn dweud sydd ganddynt, a pha driniaethau a ddefnyddir ar eu cyfer. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn dogfen sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd i roi arweiniad ar drin a rheoli arthritis a chyflyrau cyhyrsgerberbydol cronig. Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	Os yw'r ymatebwyr wedi sôn am fath penodol o arthritis neu gyflwr penodol ar yr esgyrn yn Disab1-6E, yn ArthBoneType, gofynnir iddynt gadarnhau pa fath yn benodol, cyn i'r cwestiynau dilynol gael eu gofyn.
Denture TeethBrushFreq DentReas DentCheckFreq DentAdv TeethImp	Iechyd deintyddol	Mae'n bosibl atal clefydau deintyddol bron yn llwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais ar atal clefydau, gan annog pobl i ofalu am iechyd y geg a'i wella. Bydd yr adran hon yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut mae pobl yn gofalu am eu dannedd, eu ceg a'u deintgig, ac a ydynt yn cael cyngor ar sut i wneud hyn pan fyddant yn ymweld â'r deintydd, fel y dylent fod. Bydd y wybodaeth yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu a yw'r polisi presennol yn gweithio, ac a oes angen unrhyw newidiadau.	
Veg1 Salad Potato	Deiet	Ein helpu i gael gwybod a yw pobl yn bwyta 5 o ffrwythau neu lysiau bob dydd. Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau i fyw'n iach yn	Mae maint dognau ar gyfer gwahanol fwydydd wedi cael eu trosi i unedau bob dydd er mwyn ei gwneud

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
Pulses Veg2 VegDish Fruit FruitVS FruitS FruitM FruitL FruitVL FruitFrzTin FruitDried FruitDish FruitJuice		ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 . Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio'n eang gan sefydliadau eraill hefyd (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill) er mwyn datblygu strategaethau, monitro cynnydd a chymryd camau ar faterion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd.	yn haws i bobl gyfrifo (a monitro) faint maent yn ei fwyta bob dydd.
DnNow, DnOcc, DnEv, DnCond, DnFreq, Dn7d, Dn7dN, DnSame, Dn7dMost, DnType, DnBrMeas, DnBrHalf, DnBrSmc, DnBrLgC, DnBrBot, DnStBrMeas, DnStBrHalf, DnStBrSmc, DnStBrLgC, DnStBrBot, DnSpir, DnSher, DnWineMeas, DnWineBot,	Alcohol	Deall lefelau yfed alcohol yng Nghymru. Mae'r rhain yn gwestiynau safonol sy'n cael eu gofyn mewn sawl arolwg hir-dymor sy'n ymwneud ag iechyd, fel Arolwg Iechyd Lloegr (HSE). Byddant yn ei gwneud yn bosibl monitro newidiadau mewn lefelau defnyddio alcohol yng Nghymru ac ar draws y DU dros amser. Ar hyn o bryd, mae gwybodaeth yr Arolwg Cenedlaethol yn cael ei defnyddio i gefnogi gwaith ymchwil sy'n gysylltiedig â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 . Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau am fyw'n iach hefyd yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
DnWineLgG, DnWineStG, DnWineSmG, DnApmeas, DnApSmC, DnApStBot, DnApLgBot, DnOftBr, DnUBrMeas, DnUBrHalf, DnUBrSmC, DnUBrLgC, DnUBrBot, DnOftStBr, DnUstBrMeas, DnUstBrHalf, DnUstBrSmC, DnUstBrLgC, DnUstBrBot, DnOftSpir, DNUSpir, DnOftSher DnUSher, DnOftWine DnUWine, DnUWineMeas, DnOftApop, DnUApopMeas, DnUApopSmC, DnUApopStBon, DnUApopStBot, DnmUApopLgBot;		Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio'n eang gan sefydliadau eraill (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill) er mwyn datblygu strategaethau, monitro cynnydd a chymryd camau ar faterion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd.	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
Smoke EcigEv EcigNow EcigOft	Ysmygu	Cael gwybod am y lefelau ysmygu a defnyddio e-sigaréts. Mae cyfran y bobl sy'n dewis byw'n iach (gan gynnwys peidio ag ysmygu) yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 . Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio'n eang gan sefydliadau eraill hefyd (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill) er mwyn datblygu strategaethau, monitro cynnydd a chymryd camau i helpu pobl i wneud dewisiadau iach.	Dylid cynnwys Dim ond tybaco cyffredin sy'n cael ei ysmygu. Ni ddylid cynnwys Snwff, tybaco neu gynhyrchion tybaco sy'n cael eu cnoi neu'u sipian, a thybaco llysieuol (herbal).
Walk WalkTime WalkPace WalkSweat ModAct ModActTime VigAct VigActTime	Gweithgarwch corfforol	Cael gwybod am y gwahanol fathau o weithgarwch corfforol – cerdded, gweithgarwch cymedrol ac egniol – a wnaed yn y 7 diwrnod diwethaf. Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau iach am eu ffordd o fyw (gan gynnwys gwneud ymarfer corff yn rheolaidd) yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 . Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio'n eang gan sefydliadau eraill hefyd (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill) er mwyn datblygu strategaethau, monitro cynnydd a chymryd camau ar faterion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd.	
AtFrqBke AtFrqWik	Teithio llesol	Cael gwybod a yw pobl yn cerdded neu'n seiclo fel ffordd o fynd o le i le (e.e. i fynd i'r	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		gwaith). Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n annog pobl i gerdded a/neu seiclo fel rhan o'u trefn ddyddiol (e.e. oedolion yn teithio i'r gwaith neu blant yn teithio i'r ysgol).	
WgOverSat WgSeeHear WgList	Llywodraeth Cymru	Cael gwybod beth yw barn pobl am Lywodraeth Cymru. Mae'r cwestiynau'n bwysig er mwyn monitro perfformiad Llywodraeth Cymru. Daw WgOverSat o Arolwg Cymdeithasol Ewrop – arolwg mawr sy'n cael ei gynnal ar hyd a lled Ewrop er 2002. Mae hyn yn golygu bod modd cymharu canlyniadau Cymru yn yr Arolwg Cenedlaethol â chanlyniadau dros 30 o wledydd eraill ym mhob cwr o Ewrop.	Mae'n bwysig nodi mai cwestiynau barn yw'r cwestiynau hyn. Edrychwch ar y canllawiau ar gwestiynau barn ar dudalen 11.
TxMstCtrl TxHrdOf TxInc TxIncWG TxIncXWG TxVAT TxVATWG TxVATXWG TxCoun TxCounWG TxCounXWG	Datganoli trethi	Mae'r cwestiynau hyn yn rhoi gwybod pa drethi mae'r ymatebydd wedi clywed amdanynt a phwy, ym marn yr ymatebydd, sydd â'r mwyaf o reolaeth dros lefelau'r trethi hyn. Maent yn pennu faint o reolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru am lefelau'r trethi hyn ym marn yr ymatebydd. Cafodd treth stamp, treth dir a threth dirlenwi eu datganoli i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018, a bydd rhan o dreth incwm yn cael ei datganoli o fis Ebrill 2019 ymlaen. Bydd gwybodaeth am ymwybyddiaeth	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
TxStmp TxStmpWG TxStmpXWGH TxAlc TxAlcWG TxAlcXWGH TxAir TxAirWG TxAirXWG TxLnd TxLndWG TxLndXWG		y cyhoedd ynghylch datganoli trethi yn helpu i asesu pa mor effeithiol yw strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu Trysorlys Cymru, ac yn ei helpu i'w datblygu yn y dyfodol.	
ADHol ADDec ADIns ADMon ADFur FinBillCredNP ADRep ADSelf ADHeat	Craidd – Amddifadedd materol cartrefi (nid pensiynwyr)	Cael gwybod a yw pobl yn gallu fforddio nwyddau a gweithgareddau bob dydd. Mae Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru a'i Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwella canlyniadau cartrefi sydd ar incwm isel yng Nghymru. Maent yn ceisio atal tlodi, yn enwedig tlodi cyson ymhlith rhai o'n pobl a'n cymunedau tlotaf, ynghyd â lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn mynd yn dlawd. Un ffordd o fesur tlodi yw gofyn cwestiynau am amddifadedd materol. Mae cwestiynau am amddifadedd materol wedi'u cynllunio i gyfleu canlyniadau tlodi hirdymor ar gartrefi, yn hytrach na straen ariannol yn y tymor byr.	Dyma'r set graidd o gwestiynau am amddifadedd materol cartrefi, sy'n cael eu gofyn i bawb nad ydynt yn bensiynwyr (diffinnir yn ôl oedran). Cânt eu gofyn i bensiynwyr sy'n rhieni neu'n warcheidwaid i blant dibynnol hefyd (er mwyn cyfrifo mesur amddifadedd plant). Bydd sgôr amddifadedd materol yn cael ei chyfrifo ar gyfer yr ymatebydd ar sail ei ymatebion i'r cwestiynau hyn. Os bydd sgôr yr ymatebydd ar y ffin, bydd cwestiynau ychwanegol yn cael eu gofyn iddo. Y rheswm dros wneud hyn yw gwneud yn siŵr ein bod yn gofyn cyn lleied o gwestiynau ag y bo modd i gael gwybod a yw cartref wedi'i amddifadu. Os yw'n

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddant hefyd yn ei gwneud yn bosibl dadansoddi canlyniadau arolygon eraill ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl (e.e. oes gan bobl sy'n wynebu amddifadedd materol safbwyntiau gwahanol am wasanaethau cyhoeddus o'u cymharu â phobl sydd ddim yn wynebu amddifadedd materol?).	amlwg bod cartref wedi'i amddifadu neu heb ei amddifadu, ar sail yr atebion i'r ychydig gwestiynau cyntaf, ni fydd angen gofyn y cwestiynau ychwanegol. Mae'r cwestiynau'n gofyn am ddehongliad yr ymatebydd ei hun – barn yw'r atebion.
OACook OAHome OADamp OAWarm FinBilCredP OA Taxi OAHair OAFrnd OACookNt OAHomeNt OADampNt OAWarmNt OATaxiNt OAHairNt OAFrndNt OAMeal OAOut OAHolt	Craidd – Amddifadedd materol cartrefi (pensiynwyr)	Cael gwybod a yw pobl yn gallu fforddio nwyddau a gweithgareddau bob dydd. Defnyddir set wahanol o gwestiynau amddifadedd materol ar gyfer pensiynwyr. Y rheswm am hyn yw, pan fydd pensiynwyr yn ateb cwestiynau safonol am amddifadedd materol, maent yn fwy tebygol o lawer o ddweud, os nad oes ganddynt eitem benodol, yna nid oes angen yr eitem honno arnynt. Cafodd y cwestiynau amddifadedd materol ar gyfer pensiynwyr eu datblygu i fod yn fesur mwy cywir o amddifadedd materol y grŵp hwn. Mae'r sail resymegol a'r ffordd o ofyn y cwestiynau yr un fath ag yr ydynt ar gyfer y cwestiynau i'r rheini nad ydynt yn bensiynwyr (gweler uchod).	Dyma'r set graidd o gwestiynau am amddifadedd materol cartrefi ar gyfer pensiynwyr (diffinnir yn ôl oed). Bydd sgôr amddifadedd materol yn cael ei chyfrifo ar gyfer yr ymatebydd ar sail ei ymatebion i'r cwestiynau hyn. Os bydd sgôr yr ymatebydd ar y ffin, bydd cwestiynau ychwanegol yn cael eu gofyn iddo. Y rheswm dros wneud hyn yw gwneud yn siŵr ein bod yn gofyn cyn lleied o gwestiynau ag y bo modd i gael gwybod a yw cartref wedi'i amddifadu. Os yw'n amlwg bod pobl wedi'u hamddifadu neu heb eu hamddifadu, ar sail yr atebion i'r cwestiynau cyntaf, ni fydd angen gofyn y cwestiynau ychwanegol. Mae'r cwestiynau'n gofyn am ddehongliad yr ymatebydd ei hun – barn yw'r atebion.

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
OAHeat OAPhon OACoat OAExpns OAHwPy MealNt Outnt HoINt HeatNt PhonNt CoatNt			OACook – Os yw ymatebydd yn holi a yw'r cwestiwn hwn yn golygu prynu popty newydd, atebwch drwy ddweud ei fod yn golygu "Naill ai prynu un newydd neu un ail-law." OAOut – Mae mynd allan yn gymdeithasol yn cynnwys: cwrdd â phobl yn gymdeithasol y tu allan i'r cartref, mynd am bryd o fwyd, mynd i'r dref ac ati. Mae mynd allan yn gymdeithasol hefyd yn cynnwys cwrdd â phobl yng nghartrefi pobl eraill – cyn belled â bod yr ymatebydd yn gadael ei gartref ei hun. O ran y cwestiynau ynglŷn â pham nad oes gan bobl eitemau penodol, cofiwch fod y categorïau ymateb yn rhai aml-god – gall ymatebwyr ddewis cynifer o eitemau ag y dymunant.
CDCoat CDEqp CDCel CDAct CDLes CDVeg CDBed CDTea CDPlay CDTrp	Craidd – Amddifadedd materol plant	Gofynnir set arall o gwestiynau am amddifadedd materol i bob rhiant/gwarcheidwad (plant o dan 16 oed, plant rhwng 16 ac 19 oed a phlant mewn addysg amser llawn) er mwyn cael gwybod beth yw lefelau amddifadedd materol ymhlith plant. Mae'r sail resymegol a'r ffordd o ofyn y cwestiynau hyn yr un fath ag yr ydynt ar gyfer y cwestiynau sy'n ymwneud ag amddifadedd materol cartrefi (gweler uchod).	Dyma'r set graidd o gwestiynau am amddifadedd materol plant. Cânt eu gofyn os yw'r ymatebydd yn warcheidwad cyfreithiol i blentyn yn y cartref. Bydd sgôr amddifadedd materol plentyn yn cael ei chyfrifo ar sail ymatebion y gwarcheidwad cyfreithiol i'r cwestiynau hyn. Os bydd y sgôr ar y ffin, bydd cwestiynau ychwanegol yn cael eu gofyn iddynt. Gofynnir i ymatebwyr feddwl am eu holl blant dibynnol wrth ateb y cwestiynau hyn. Gall achosion godi, fodd bynnag, lle mae 'gan' un plentyn rywbeth ond nad oes modd ei fforddio i'r llall, neu 'nad oes angen' ar un ac na ellir ei fforddio i'r llall. Yn yr achosion hyn, mae angen blaenoriaethu. Bydd y

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
			flaenoriaeth BOB AMSER yn cael ei rhoi i 'methu fforddio'. Y flaenoriaeth yw: 1. methu fforddio, 2. dim angen, 3. (pawb) wedi cael. Os nad yw ateb yr ymatebydd yn eich galluogi i wahaniaethu rhwng cod 2 a chod 3, gofynnwch "Pa ateb o'r cerdyn sydd fwyaf priodol i chi?" Mae'r cwestiynau'n gofyn am ddehongliad yr ymatebydd ei hun – barn yw'r atebion.
WelfUC UCHousYN RentArrs RentArrsWhy UCRentAPA UCRentWho	Credyd cynhwysol	Mae Llywodraeth y DU wrthi'n cyflwyno Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn newid mawr, gan olygu cyfuno chwech o'r prif fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd i greu un budd-dal. Nod y cwestiynau hyn yw cael gwybod sut mae pobl yn llwyddo i dalu costau tai o dan Gredyd Cynhwysol. Bydd yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol i helpu pobl sy'n wynebu effaith diwygio lles yng Nghymru. Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	
VolType VolTime	Gwirfoddoli	Cael gwybod a yw pobl yn gwirfoddoli, naill ai'n ffurfiol (mewn clybiau a mudiadau) neu'n anffurfiol (gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau neu gymdogion). Mae gwirfoddoli'n elfen o	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
Carer CarerHrs	Gofalwyr (gwirfoddoli)	lesiant a bydd y cwestiynau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 .	
SelfEmp SelfEmpOne JobNo Contract Sector BusAct	Cyd-destun cyflogaeth	Cael gwybod am y math o waith y mae'r ymatebydd yn ei wneud, er mwyn helpu i ddadansoddi atebion i gwestiynau dilynol am waith. Er enghraifft, bydd y cwestiynau'n ei gwneud yn bosibl dadansoddi a yw pobl gyda gwahanol fathau o gontractau gwaith yn fwy tebygol o gael cyfleoedd i symud ymlaen yn eu gwaith neu i ddysgu sgiliau newydd. Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	
PaidAL PaidSick PaidEmChild PaidEmFam PatLv ShParHeard ShParTake WorkPensAv WorkHome WorkPT WorkShare WorkComp WorkTerm WorkFlexi WorkLD	Gwaith teg	Cael gwybod am brofiadau pobl o waith teg, gan gynnwys amodau gweithio, arferion gweithio hyblyg, rhagolygon, a chymryd rhan mewn penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i hyrwyddo gwaith teg a bydd y canlyniadau'n helpu Comisiwn Gwaith Teg Cymru i ddeall pa gamau y mae angen eu cymryd i roi sylw i broblemau.	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
WorkCareer WorkOrgDec WorkHowDec			
OlderDvpOpp AgeDiscrim	Gwahaniaethu ar sail oedran	Cael gwybod a yw pobl wedi wynebu gwahaniaethu ar sail oedran yn y farchnad lafur. Mae gan Gymru weithlu sy'n heneiddio. Rhagwelir y bydd 1 person oed gwaith ym mhob 3 dros 50 oed erbyn 2022. Mae newidiadau i oedran pensiwn y wladwriaeth hefyd yn golygu bod angen i bobl weithio am fwy o amser. Bydd y canlyniadau hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i annog cyflogwyr i ail-hyfforddi, hyfforddi a chyflogi gweithwyr hŷn. Bydd y cwestiwn am wahaniaethu ar sail oedran yn cael ei ofyn i bobl o dan 25 oed hefyd er mwyn cael gwybod mwy am y rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag cael gwaith.	
RetCheck RetExp PrePenWhyFut PrePenWhy PostPenWhyFut PostPenWhy PreRetPlans RetFin RetEmplInfo	Cynllunio ar gyfer y dyfodol	Cael gwybod am gynlluniau a pharatoadau y mae pobl dros 50 oed yn eu gwneud ar gyfer eu hymddeoliad. Mae gan Gymru weithlu sy'n heneiddio. Rhagwelir y bydd 1 person oed gwaith ym mhob 3 dros 50 oed erbyn 2022. Mae newidiadau i oedran pensiwn y wladwriaeth hefyd yn golygu bod angen i bobl weithio am fwy o amser. Bydd canlyniadau'r cwestiynau hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisïau i alluogi pobl i weithio'n	Gofynnir yr adran hon i bob ymatebydd 50 oed neu hŷn sydd ddim wedi ymddeol, neu sydd ddim yn ystyried eu bod wedi ymddeol.

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		hirach os dymunant, ac i annog cyflogwyr i ail-hyfforddi, i hyfforddi ac i recriwtio gweithwyr hŷn.	
SkillDone SkillWant SkillReas RetrainReas SkillDevX	Datblygu sgiliau yn ymwneud â'r gwaith	Cael gwybod am brofiadau pobl o ran datblygu sgiliau sy'n ymwneud â gwaith a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu. Bydd y canlyniadau'n helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu pa gamau y mae angen eu cymryd i annog pobl a'u cyflogwyr i ystyried y sgiliau y mae eu hangen arnynt a sut i'w datblygu.	
WorkWant LastPaidJob EmpHelpYN EmpHelpNo EmpHelpOrg EmpHelpOrgMain EmpHelpTyp FindWorkX EmpHelpQual FindworkAgeX EmpHelpAware	Cyflogadwyedd a chymorth	Cael gwybod am brofiadau pobl wrth ddod o hyd i waith. Mae rhaglen newydd o'r enw Cymru'n Gweithio wedi cael ei chyflwyno er mwyn cynorthwyo pobl o bob oed i oresgyn rhwystrau ac i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael swydd dda a chynaliadwy, ac i ddal eu gafael ar y swydd honno. Bydd canlyniadau'r cwestiynau hyn yn rhoi syniad i ba raddau mae'r newidiadau hyn yn gweithio, ac a oes angen cymryd camau pellach.	
TravWkPlace TravWkDist TravToWkTimes TravFromWkTimes TravWkMode EmpYr WkModeYr	Trafnidiaeth	Mae gwaith ar y gweill i wella'r system drafnidiaeth gyhoeddus ar draws Cymru, gan gynnwys drwy Fetro De Cymru a Metro Gogledd Cymru. Bydd y cwestiynau hyn yn rhoi gwybodaeth sylfaenol am y defnydd y mae pobl yn ei wneud o drafnidiaeth gyhoeddus, a pha mor fodlon ydynt â'r gwasanaeth. Bydd y	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
WkModeChan BusFreq TrainFreq BusOverSat BusRelSat BusFreqSat TrainOverSat TrainRelSat TrainFreqSat TravPubTransX		canlyniadau'n helpu i werthuso'r prosiectau trafnidiaeth hyn dros gyfnod, ac yn helpu i ddysgu gwersi ar gyfer prosiectau'r dyfodol.	
ArtsAttEv ArtsWhy ArtsFreq	Presenoldeb yn y celfyddydau	Cael gwybod pa mor aml mae'r ymatebwyr wedi bod mewn gwahanol fathau o ddigwyddiadau'n ymwneud â'r celfyddydau a/neu wedi cymryd rhan ynddynt yn ystod eu hamser rhydd neu fel rhan o waith gwirfoddol. Mae cyfran y bobl sy'n mynd i ddigwyddiadau neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 . Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y dangosydd.	
ArtsPart ArtsPartWhy ArtsPartFreq	Cyfranogi yn y celfyddydau		
HeritAtt HeritWhy HeritFreq	Treftadaeth	Cael gwybod pa mor aml mae ymatebwyr wedi ymweld â safleoedd treftadaeth yn ystod eu hamser rhydd neu fel rhan o waith gwirfoddol. Fel yr uchod, bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		dangosydd cenedlaethol ar gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth.	
MusAtt MusWhy MusFreq	Amgueddfeydd	Cael gwybod pa mor aml mae ymatebwyr wedi ymweld ag amgueddfeydd yn ystod eu hamser rhydd neu fel rhan o waith gwirfoddol. Fel yr uchod, bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y dangosydd cenedlaethol ar gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth.	
LibAtt LibWhy LibFreq	Llyfrgelloedd	Cael gwybod pa mor aml mae ymatebwyr wedi ymweld â llyfrgell gyhoeddus yn ystod eu hamser rhydd neu fel rhan o waith gwirfoddol. Fel yr uchod, bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y dangosydd cenedlaethol ar gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth.	
ArchAtt ArchWhy ArchFreq	Archifau	Cael gwybod pa mor aml mae ymatebwyr wedi ymweld ag archifau yn ystod eu hamser rhydd neu fel rhan o waith gwirfoddol. Fel yr uchod, bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y dangosydd cenedlaethol ar gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth.	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
SWFilter SWFilterLD OAct4W OAct4wN OActMore OPur4w OPur4wN OPurMore IAct4w IAct4wDan IAct4wGym IAct4wMar IAct4wN IActMore IActMoreDan IActMoreGym IActMoreMar	Chwaraeon Cymru – Cyfranogiad presennol a galw cudd	Cael gwybod pa chwaraeon mae pobl yn cymryd rhan ynddynt a pha mor aml, ac am alw heb ei fodloni ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon. Caiff y cwestiynau hyn eu defnyddio gan Chwaraeon Cymru i fonitro tueddiadau cyfranogi mewn chwaraeon ac i weld a yw'r lefelau cyfranogi'n wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu i siapio polisïau chwaraeon, iechyd ac addysg, ac yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am fuddsoddi mewn chwaraeon. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio gan sefydliadau cyhoeddus eraill hefyd, fel awdurdodau lleol a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol ym maes Chwaraeon.	
ClubMem ClubNum ClubName ClubPur ClubSport ClubPart ClubPartSport ClubMemTyp ClubFreqCoa ClubFreqCoaWL	Chwaraeon Cymru – Aelodaeth o glybiau chwaraeon	Cael gwybod sut mae pobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae'r cwestiynau'n ymdrin ag aelodaeth o glybiau chwaraeon, gan gynnwys y mathau o glybiau neu weithgareddau y mae pobl wedi bod yn rhan ohonynt, ac a ydynt wedi cael hyfforddiant. Mae'r cwestiynau'n helpu Chwaraeon Cymru i ddeall pa gampau sy'n cael eu cynnig i bobl Cymru, a pha rai mae pobl Cymru'n cymryd	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		rhan ynddynt. Cânt eu defnyddio i fonitro tueddiadau cyfranogi mewn chwaraeon ac i weld a yw'r lefelau cyfranogi'n wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu i siapiau polisïau chwaraeon, iechyd ac addysg, ac yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am fuddsoddi mewn chwaraeon.	
SportMore	Chwaraeon Cymru – Annog cyfranogiad yn y dyfodol	Deall beth sy'n cymell oedolion i gymryd rhan mewn chwaraeon, beth sy'n eu hatal rhag gwneud hynny, ac a oes gwahaniaeth rhwng gwahanol grwpiau o bobl. Bydd Chwaraeon Cymru yn defnyddio'r canlyniadau i bwysu a mesur camau i annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon. Byddant yn helpu i siapiau polisïau chwaraeon, iechyd ac addysg, ac yn cyfrannu at benderfyniadau am fuddsoddi mewn chwaraeon.	
SportSchEnj SportSchReg	Chwaraeon Cymru – Profiadau yn yr ysgol	Cael gwybod am brofiadau unigolion o chwaraeon mewn ysgolion er mwyn gallu dadansoddi'r berthynas â chyfranogiad presennol mewn chwaraeon. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio wrth lunio polisïau addysg a chwaraeon.	
ActRecent ActEnjoy ActEnjoyLast	Chwaraeon Cymru – Mwynhau chwaraeon	Nod Chwaraeon Cymru yw gweld pobl yn mwynhau chwaraeon. Bwriad y cwestiynau hyn yw cael gwybod pa fath o bethau sy'n	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
ActEnjoyMore		gwneud profiadau pobl o chwaraeon yn brofiadau llawn boddhad, neu pa fath o bethau allai wneud hynny. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i feddwl am gamau a allai gael eu cymryd i wneud yn siŵr bod pobl yn cael mwy o fwynhad wrth gymryd rhan mewn chwaraeon.	
SportVolClub SportVolDri SportVolClub1 SportVolClub2 SportVolAct1 SportvolAct2 SportVolAge SportVolFreq SportVolHrs SportVolCoa SportVolCoaWL	Chwaraeon Cymru – Gwirfoddoli	Cael gwybod a yw pobl wedi helpu gyda gweithgareddau chwaraeon yn wirfoddol. Bydd y canlyniadau'n rhoi gwybodaeth am y gweithlu sydd ei angen i hybu cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru.	Mae llwybr yr ymatebydd drwy'r adran gwirfoddoli ym maes chwaraeon yn ddibynnol ar a ydyw wedi dweud ei fod yn gwirfoddoli gyda chlwb chwaraeon yn VolType (cod 6).
SCAccept AXSCAccept	Derbyn CASI	Gweld a yw'r ymatebydd yn fodlon bwrw ymlaen â chwestiynau CASI.	Mae CASI yn gadael i ymatebwyr ateb cwestiynau mwy sensitif amdanyn nhw eu hunain, yn syth ar y cyfrifiadur, yn hytrach na dweud yr ateb yn uchel er mwyn i'r cyfwelydd ei gofnodi. Gall hyn wneud i'r ymatebwyr deimlo'n fwy cyfforddus, a helpu i wella ansawdd y data fydd yn cael eu casglu. Y modd hunanlenwi yw'r opsiwn 'diofyn' ar gyfer cwblhau'r adrannau hyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'r ymatebydd, er

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
			enghraifft, yn methu cwblhau'r adran ei hun oherwydd fod ganddo gyflwr iechyd (e.e. cryndod, problemau golwg) neu oherwydd nad yw'n gallu darllen, y cewch chi gynnig bwrw ymlaen â'r adrannau yn y modd CAPI. Ceisiwch annog yr ymatebydd i ddefnyddio CASI gymaint ag y gallwch chi.
InPrac CASIPra1-5 EndPrac	Modiwl hyfforddi CASI	Rhoi cyfle i'r ymatebydd roi cynnig ar ddefnyddio'r cyfrifiadur cyn ateb cwestiynau'r arolwg.	
LoneEmp LoneMiss LoneRej LoneRely LoneTrust LoneClose	CASI – Unigrwydd	Cael gwybod am gymorth emosiynol a chymdeithasol yr ymatebydd. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i wella llesiant pobl. Mae cyfran y bobl sy'n teimlo'n unig hefyd yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 . Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu defnyddio i fonitro yn erbyn y dangosydd.	
SmackAgree SmackChanAgree SmackChanDisagree SmackHarmSelf SmackHarmAnoth SmackOOC SmackPun	CASI – Cosbi plant yn gorfforol	Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig deddfwriaeth newydd ar smacio plant. Nod y cwestiynau hyn yw rhoi gwybodaeth sylfaenol am safbwyntiau pobl cyn i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei chyflwyno.	Mae'n bwysig nodi mai cwestiynau barn yw'r cwestiynau hyn. Edrychwch ar y canllawiau ar gwestiynau barn ar dudalen 11. Yr ymatebydd fydd yn penderfynu beth mae pob un o'r datganiadau'n ei olygu iddo ef, ac a yw'n cytuno â nhw ai peidio. Peidiwch â rhoi awgrym.
IncResp IncAnoth1-5	CASI – Cwestiynau incwm wedi'u bandio	Mae'r cwestiynau byr hyn yn gofyn i'r ymatebwyr nodi beth yw eu braced incwm, ac	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		os mai'r ymatebydd yw person cyswllt y cartref neu ei briod/partner, i nodi braced incwm oedolion eraill sy'n byw yn y cartref. Bydd modd dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. oes gan bobl gyda lefelau incwm gwahanol safbwyntiau gwahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Fel gydag atebion pob arolwg, bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion na chartrefi mewn unrhyw ffordd.	
WorkDisc WorkBul	CASI – Camwahaniaethu a bwlio	Mae'r cwestiynau hyn yn gysylltiedig â'r adran ar waith teg. Maent yn cael eu gofyn yn CASI oherwydd eu natur sensitif. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i hybu gwaith teg a bydd canlyniadau'r cwestiynau hyn yn rhoi gwybodaeth i Gomisiwn Gwaith Teg Cymru am y camau y mae angen iddo eu cymryd.	
Pregnant	CASI – Beichiog	Mae angen y cwestiwn hwn er mwyn gwneud yn siŵr nad yw menywod beichiog yn cael eu cynnwys mewn cyfrifiadau Mynegai Mâs y Corff (BMI). Ni fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	Roedd y cwestiwn hwn yn arfer bod yn rhan o'r adran BMI yn CAPI, ond mae wedi cael ei symud i CASI oherwydd ei natur sensitif.
SexOrient Crefydd	Craidd CASI – Cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd	Er mwyn gallu dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl (e.e. oes gan grwpiau gwahanol o bobl safbwyntiau gwahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Ni	

Enw'r newidyn	Adran	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i'r cyfwelwyr
		fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	
Recontact	Craidd – ail gysylltu	Cael gwybod a yw'r ymatebwyr yn fodlon i rywun gysylltu â nhw eto yn y dyfodol. Yna bydd modd eu gwahodd i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil dilynol.	
ReCall2 Vouch1 ChkName Postname VAddChk VAddr1-4 Vpostcode GiveTel PhSTD PhNum EmailV EmailV1 E-bost Thanks	Craidd – Cyfwelydd i wirio'r wybodaeth	Byddwn yn ail gysylltu ag is-set o ymatebwyr i gynnal cyfweiliad byr dros y ffôn er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyfweiliad wedi cael ei gyflawni'n gywir. Mae ReCall2 yn gwneud yn siŵr eu bod yn fodlon i rywun gysylltu â nhw at y diben hwn. Mae'r cwestiynau sydd ar ôl wedi cael eu cynnwys er mwyn cael manylion cyswllt, fel bod modd cysylltu â'r ymatebydd ar gyfer prosiectau dilynol, rhoi adborth, anfon y daleb a rhannu canlyniadau'r arolwg os dymunir.	